**ATODIAD 10**

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf. Er bod yr argymhellion yn deillio o sefyllfa ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt cynnal buddsoddi mewn gwasanaethau.

2. Prif gasgliadau am gyllideb 2019/20 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:

   - Llewyrchus – Niwtral
   - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau)
   - Iachach – Positif (ariannu Unedau Dementia, a gofynion eraill 'Gofal')
   - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
   - Cymunedau Cydlynus – Niwtral
   - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
   - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral

3. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

   - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
   - Cymryd agwedd integredig - Mae'r cynigion cyllideb yn annog ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
   - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
   - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn.
   - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r 2 gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth arbedion ariannol.

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y gweithdai trefnwyd i'w craffu ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.

5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.